**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1073
Ein cyf/Our ref DB/10414/21
Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

06 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am ysgrifennu ataf mewn perthynas â deisebau P-05-1073 a P-05-1086.

Roeddech yn holi a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ailgartrefu archif Tiger Bay mewn lleoliad mwy hygyrch i'r cyhoedd. Roedd y Gyfnewidfa Dreftadaeth a Diwylliannol (HCE) yn berchen ar gasgliad Tiger Bay (https://www.tigerbay.org.uk/ ), yn cynnwys atgofion, dogfennau a ffotograffau pobl leol, o hen Ganolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown pan gaeodd yn 2017.

Mae casgliad llawn Tiger Bay wedi'i gartrefu yn Archifau Morgannwg dros dro ar hyn o bryd. Mae'n derbyn gofal gan staff proffesiynol ac yn cael ei storio mewn llety pwrpasol. Mae gwirfoddolwyr HCE yn gallu defnyddio a gweithio ar y deunyddiau. Deallwn fod trafodaethau am gartref parhaol ar gyfer yr archif yn parhau. HCE yw perchennog y casgliad o hyd ac felly HCE sy'n gyfrifol am ei ddyfodol, ond mae'r trefniadau dros dro yn golygu bod yr archif yn ddiogel ac yn hygyrch yn y tymor byr i ganolig.

Holwyd gennych hefyd am y cynnydd o ran cydnabod a dathlu hanes pobl dduon yng Nghymru.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod hanesion ein cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn rhan annatod o stori Cymru. Mae ein cyrff a noddir a'n sectorau diwylliannol lleol yn rhannu fy ymrwymiad i wneud i hyn ddigwydd.

Mae Amgueddfa Cymru eisoes wedi rhoi tystiolaeth fanwl i'r Pwyllgor Deisebau ar y cynnydd a gafwyd yn dilyn y mudiad Black Lives Matter. Rwy'n falch o allu cadarnhau bod yr Amgueddfa wedi parhau i gynnal ei momentwm yn y maes hwn.

Ddydd Gwener 1 Hydref, roeddwn yn lansiad Hanes Pobl Dduon Cymru 2021-22 a drefnwyd gan Gyngor Hil Cymru, a oedd yn cynnwys agoriad swyddogol arddangosfa

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Windrush Cymru – Ein Llais, Ein Straeon, Ein Hanes yn Sain Ffagan. Mae'r arddangosfa yn deillio o brosiect hanesion llafar dan arweiniad Cyngor Hil Cymru a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'n dangos sut mae'r Genhedlaeth Windrush a'u disgynyddion wedi gwneud eu marc ym mhob agwedd ar fywyd Cymru, a'r cyfraniadau a wnaethant i'n cymunedau a'n diwylliant. Bydd yr arddangosfa hefyd yn ymddangos yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Wlan Cymru a nifer o leoliadau cymunedol ledled Cymru. Roedd rhaglen Casgliad y Werin Cymru ac Amgueddfa Cymru yn bartneriaid yn y prosiect pwysig hwn, a Sain Ffagan fydd yr ystorfa ar gyfer y deunydd a gasglwyd fel rhan o'r prosiect hwn, gan ychwanegu'r straeon hyn at naratif hanes Cymru.

Mae Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi ymrwymo i arallgyfeirio eu casgliadau ac maent yn cyfrannu at eu hadolygu a'u dadwladychu. Yn haf 2021, cyhoeddodd yr Amgueddfa siarter ar ddadwladychu y casgliadau cenedlaethol dan ei gofal.

Ar 5 Hydref, cyhoeddodd Amgueddfa Cymru ddau gomisiwn newydd i artistiaid a fydd yn gweithio i ail-fframio etifeddiaeth Syr Thomas Picton. Roedd Picton wedi cael ei alw'n arwr cyhoeddus o'r blaen, ond mae hefyd yn enwog am ei driniaeth greulon o bobl Dduon ac am ganiatáu arteithio yn ystod ei lywodraethiad o Trinidad. Mae ei bortread wedi bod yn rhan o gasgliad yr Amgueddfa ers 1907.

Mae'r comisiynau, a ddyfarnwyd i'r artistiaid Gesiye a Laku Neg, yn rhan o brosiect ehangach, *'Reframing Picton'*, sy'n fenter a arweinir gan bobl ifanc sy'n cynnwys Amgueddfa Cymru a phartner cymunedol Panel Cynghori Is-Sahara. Pan fyddant wedi'u gwblhau, bydd y gweithiau celf newydd hyn yn dod yn rhan o gasgliad cenedlaethol Cymru.

Comisiynodd Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru gyfres o adroddiadau 'ehangu mynediad' gan ymgynghorwyr annibynnol yn gynharach eleni. Gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig ar 6 Medi am y pryderon a godwyd yn yr adroddiadau hyn. Mater i Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru yw llunio cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn ac i nodi sut y byddant yn ehangu ymgysylltiad â phobl a chymunedau y maent yn methu ag ymgysylltu â hwy ar hyn o bryd. Gwn eu bod ar hyn o bryd yn ystyried argymhellion yr adroddiadau hynny a disgwyliaf iddynt gyhoeddi'r cynllun gweithredu hwnnw cyn gynted â phosibl.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi penodi Asiant dros Newid eleni hefyd, ac yn ddiweddar lansiodd raglen ddogfen *'Cynefin: Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethni*g' – mae hyn yn adeiladu ar y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Fel rhan o'r broses, gweithiodd ysgolion ar y cyd ag ymarferwyr creadigol profiadol iawn o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol i gynllunio, dyfeisio a gweithredu prosiectau dysgu creadigol a oedd yn archwilio datblygiad Cymru fel cymdeithas amlddiwylliannol.

Yr wyf wedi cytuno ar gyllid rhaglenni yr wythnos hon o £98,080 i gefnogi'r sector amgueddfeydd lleol yng Nghymru. Bydd yr arian hwn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r casgliadau a gedwir gan amgueddfeydd ledled y wlad, a'r hanesion ethnig amrywiol y maent yn eu cynnwys ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn ein galluogi i nodi'n glir y bylchau mewn cynrychiolaeth, a chefnogi ymgysylltiad ystyrlon â chymunedau amrywiol i ddechrau mynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Bydd llythyrau cylch gwaith Llywodraeth Cymru yn cael eu rhoi i'n cyrff a noddir yn fuan. Mae'r rhain yn dangos fy nisgwyliadau o'n cyrff a noddir gan Ddiwylliant a Chwaraeon ar gyfer tymor y Llywodraeth ac yn cynnwys ffocws parhaus ar gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac ar gyflawni yn erbyn Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.

Mae'r mis hwn yn canolbwyntio'n benodol ar hanes Pobl Dduon wrth gwrs. Mae'n bleser gennyf ddweud wrthych fod Cyngor Hil Cymru wedi derbyn £40,000 gan Lywodraeth Cymru eleni i ariannu rôl farchnata a chyfathrebu llawn amser a rôl weinyddu ran-amser i ymgymryd â gweithgarwch i hyrwyddo a dathlu Hanes Pobl Dduon drwy gydol y flwyddyn.

Mae mwy i'w gyflawni bob amser, ond teimlaf ein bod yn dechrau gweld canlyniadau ffocws ar gydnabod a dathlu hanes pobl dduon yng Nghymru. Hyderaf fod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**Dawn Bowden AS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip